

# Castell Caerdydd

## Gweithdy Cestyll a Llysoedd

### Lleoliad

Cynhelir eich gweithdy yn naill ai Ystafell y Wraig Cadw Tŷ (Ystafell 1) yn y Ganolfan Addysg neu, pan fo'n bosibl, yn yr Isgrofft ganoloesol.

### Disgrifiad

Mae Castell Caerdydd wedi tra-arglwyddiaethu'r tirlun ers canrifoedd, ond sut cafodd ei adeiladu a phwy oedd yn byw yma? Darganfyddwch fwy am sut roedd llys canoloesol yn gweithio. Sut deimlad ydoedd i fyw mewn castell a beth oedd angen i chi ei wneud i fod yn farchog neu'n foneddiges ganoloesol? Cynhelir y sesiynau gan hwylusydd proffesiynol mewn dillad o'r oes sydd wedi pasio prawf y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DRB).

### Taith Dywys o'r Castell

Bydd taith o'r Castell yn mynd â'r plant o amgylch rhai o'r ystafelloedd mwyaf trawiadol a lliwgar a ddyluniwyd gan y pensaer, William Burges. Mae ei gynlluniau yn dod o'r cyfnod Fictoraidd ond maent yn adlewyrchu gweledigaeth Burges o sut y byddai tu mewn i Gastell canoloesol wedi edrych.

### Hyd

Bydd y gweithdy yn para 75 munud. Bydd y daith dywys yn para tua 50 munud neu gellir mynd â phlant iau ar daith fyrrach os byddant yn cael trafferth dringo'r grisiau troellog. Neilltuir amser ar gyfer cinio ac i wneud yr agweddau eraill sydd wedi'u cynnwys yn yr ymweliad (gweler isod)

### Canlyniadau Dysgu Allweddol

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd eich disgyblion wedi:

- ◆ Dysgu am adeiladwaith a chynllun cestyll
- ◆ Dysgu am y gwahanol bobl oedd yn byw mewn castell
- ◆ Dysgu am y gwahanol fathau o arwisgoedd a fyddai'n cael eu defnyddio gan y tri math cyffredin o filwr – saethwr, milwr gwaywffon a marchogion
- ◆ Dysgu am rai o'r dulliau ymosod ar faes y gad a pham bod gwahanol fathau o arwisgoedd ac arfau yn dda at ddibenion penodol
- ◆ Cymryd rhan mewn "Ymarfer Gwaywfwyeill" syml (Sylwer na fydd hyn yn bosibl os yw amser yn brin neu os yw grwpiau yn fwy na'r arferol)

### Prif Gysylltiadau â'r Cwricwlwm Cenedlaethol

- ◆ **Cyfnod Sylfaenol (Cymru)**
  - Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
  - Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Diwylliannol
- ◆ **Hanes - Cyfnod Allweddol 1 (Lloegr)**
  - Digwyddiadau y tu hwnt i gof byw
- ◆ **Hanes - Cyfnod Allweddol 2 (Cymru)**
  - Bywyd pob dydd pobl yn ystod Oes y Tywysogion
- ◆ **Hanes – Cyfnod Allweddol 2 (Lloegr)**
  - Astudiaeth o agwedd neu thema yn hanes Prydain sy'n ymestyn gwybodaeth gronolegol y disgyblion y tu hwnt i 1066

### **Beth Arall sy'n Rhan o'ch Ymweliad**

- Defnyddio'r Daith Glywedol a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer plant
- Sioe ffilm a mynediad i ardaloedd y Tiroedd gan gynnwys y Gorthwr, y Bylchfuriau a'r Llochesi Rhyfel.
- Ymweliad â Firing Line - Amgueddfa'r Milwr Cymreig (Amgueddfa Filwrol yn y Ganolfan Ddehongli). Noder: Mae Firing Line yn cael ei rheoli yn annibynnol ac nid yw unrhyw weithgareddau a gynigir yno'n rhan o Wasanaeth Addysg Castell Caerdydd. Efallai na fydd yr ymweliadau yn bosibl ar ddiwrnodau penodol, neu efallai y codir tâl ychwanegol

Fel arfer, mae gennym adar ysglyfaethus ar y safle yn ystod yr wythnos ond ni allwn warantu hyn.